

Mae'r canllawiau ar gyfer cymryd gwrthfiotigau yn gyfrifol yr un fath ar gyfer pobl ac anifeiliaid

Ydych chi'n ymwybodol o wrthfiotigau?

Nid gwrthfiotigau yw'r ateb bob tro

Nid oes angen gwrthfiotigau ar gyfer pob salwch - ni ellir trin y rhai a achosir gan firysau yn y modd hwn. Peidiwch â disgwyl gwrthfiotigau os yw eich meddyg neu filfeddyg yn dweud nad oes eu hangen - gall defnydd amhriodol gyflymu ymwrthiant bacteriol i'r cyffur.

Nid yw cynyddu'r ddos yn golygu ei fod yn gweithio'n gyflymach

Dylid cymryd gwrthfiotigau fel a bennir gan eich meddyg neu filfeddyg. Mae hyn yn rhoi'r cyfle gorau i'r corff weithio gyda'r cyffuriau i ymladd haint ac yn helpu i gadw bacteria rhag datblygu ffyrdd newydd o wrthsefyll y gwrthfiotig.

Mae'n rhaid gorffen y cwrs bob tro

Gall peidio â chwblhau'r cwrs fel y pennwyd gan eich meddyg neu filfeddyg fod yn beryglus iawn a gall ganiatáu bacteria ymwrthol i oroesi. Gall hyn arwain at haint ddod yn fwy anodd ei drin.

Mae gwrthfiotigau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol

Mae yna lawer o resymau pam na fydd gwrthfiotig penodol sy'n gweithio ar gyfer un person neu anifail yn briodol i un arall. Siaradwch â'ch meddyg neu filfeddyg cyn gwneud unrhyw beth.

Rhaid defnyddio'r gwrthfiotig cywir ar gyfer y salwch cywir

Os bydd y broblem yn parhau, nid dod o hyd i rywbeth cryfach yw'r ateb, ond canfod y gwrthfiotig cywir ar gyfer pob achos a chymryd y ddos gywir am yr hyd amser cywir. Gall profion sensitifrwydd helpu i adnabod y cyffur cywir.

Mae rhai bacteria wedi dod yn ymwrthol i'r cyffuriau a ddefnyddiwn i'w trin ac wedi dechrau ymladd yn ôl. Cadwch ein gwrthfiotigau yn effeithiol drwy eu defnyddio mewn ffordd gyfrifol.

CEFNOGWYD GAN

BVA British Veterinary Association

BMA

ANTIBIOTIC GUARDIAN

Public Health England

Veterinary Medicines Directorate